Adran Gwaith a Phensiynau

# Cael help gan **Cymorth ar gyfer Llog Morgais**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **SMI2WER** 03/23

# Cynnwys


1




**Cyflwyniad**
Tudalen 4

2



**Sut mae Cymorth ar gyfer Llog Morgais yn Gweithio**
Tudalen 6

3




**Cael Cymorth ar gyfer Llog Morgais**
Tudalen 8

4



**Ad-dalu Cymorth ar gyfer Llog Morgais**
Tudalen 11

# Cynnwys


5



**Cysylltu â ni**

Tudalen 16

# 1 Cyflwyniad



Cymorth ar gyfer Llog Morgais yw **benthyciad wedi'i sicrhau** gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Benthyciad wedi'i sicrhau** yw arian rydych yn ei fenthyg yn erbyn eich cartref.




Gall Cymorth ar gyfer Llog Morgais eich helpu i dalu'r llog ar eich morgais.

Gall hefyd eich helpu i dalu'r llog ar fenthyciad gwella cartref.

**SMI**

Mae Cymorth ar gyfer Llog Morgais weithiau'n cael ei alw'n SMI.

## Efallai bod gennych hawl i SMI os ydych yn cael:

canolfanbydgwaith
Adran Gwaith a Phensiynau

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm

Adran Gwaith a Phensiynau

- Credyd Pensiwn

UC Credyd Cynhwysol

- Credyd Cynhwysol.

# 2 Sut mae Cymorth ar gyfer Llog Morgais yn Gweithio



Mae SMI yn wahanol i fenthyciad arferol.

Ni fyddwch yn cael cyfandaliad.

Adran Gwaith a Phensiynau

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n gwneud taliadau tuag at y llog ar eich morgais neu fenthyciad gwella cartref.



Mae'r taliadau hyn fel arfer yn cael eu talu'n uniongyrchol i'ch benthyciwr morgais neu ddarparwr benthyciad.

## Beth na all SMI ei wneud




Ni all SMI dalu eich morgais i ffwrdd.




Ni all SMI dalu i ffwrdd unrhyw bolisïau yswiriant sydd gennych.




Ni all SMI dalu taliadau llog morgais rydych wedi eu methu a elwir yn ôl-ddyledion.

# 3 Mae cael Cymorth ar gyfer Llog Morgais yn dibynnu ar:




- Pa fudd-daliadau a gewch



- Pa mor hir rydych wedi bod yn cael y budd-daliadau hyn




- Faint sydd arnoch chi ar eich morgais neu fenthyciad gwella cartref.

Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, gallwch gael SMI ar unwaith.

Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol ac wedi cael 3 taliad yn olynol, gallwch gael SMI.

## Bydd taliadau SMI yn dechrau ar ôl 39 wythnos os ydych yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.



Os ydych yn newid budd-daliadau, ond mae popeth arall yn aros yr un fath, ni fydd eich amser aros yn newid.

**28**

Mae’n rhaid i’ch budd-dal newydd ddechrau o fewn 28 diwrnod.

Am ragor o wybodaeth am beth allwch ei gael, ewch i [www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/what-youll-get](http://www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/what-youll-get)


# 4 Ad-dalu Cymorth ar gyfer Llog Morgais




Byddwch yn talu eich SMI yn ôl pan fyddwch yn gwerthu neu’n trosglwyddo perchnogaeth eich cartref.




Bydd eich benthyciad SMI yn cael ei dalu’n ôl yn llawn gyda llog.




Gall cyfraddau SMI newid.

I gael gwybod cyfraddau llog presennol ewch i [www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/repaying-your-loan](http://www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/repaying-your-loan)




Gallwch ad-dalu'ch benthyciad SMI yn gynt.

Gallwch wneud hyn drwy wneud ad-daliadau gwirfoddol.



Os byddwch yn symud tŷ, gallwch drosglwyddo eich benthyciad SMI i'r tŷ newydd.

## Gwerthu eich cartref




Os ydych yn gwerthu eich cartref neu'n trosglwyddo perchnogaeth byddwch yn ad-dalu eich benthyciad SMI.




Ar ôl talu eich morgais i ffwrdd, efallai nad oes digon o arian ar ôl gwerthu eich cartref i ad-dalu'r benthyciad SMI yn llawn.




Os fydd hyn yn digwydd, bydd gweddill eich benthyciad yn cael ei ddileu ac ni fydd yn rhaid i chi ei ad-dalu.

## Enghraifft sy'n dangos sut mae ad-daliad SMI yn gweithio



Mae gennych fenthyciad SMI o £10,000.




Rydych yn gwerthu neu drosglwyddo perchnogaeth eich cartref.



Ar ôl gwerthu eich tŷ a thalu eich morgais i ffwrdd mae gennych £8,000.


Mae'r arian hwn weithiau'n cael ei alw'n **ecwiti**.



Bydd yr £8,000 yn talu'n ôl eich benthyciad SMI.

Mae'r £2,000 sy'n weddill yn cael ei ddileu.

# Opsiynau talu eraill




Nid SMI yw'r unig ffordd i helpu i dalu llog ar eich morgais neu fenthyciad.



Gallwch siarad â ffrindiau, teulu neu'ch benthyciwr morgais neu ddarparwr benthyciad.

I gael gwybodaeth am forgais, ewch i [www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Dyled-ac-arian/mortgage-problems-debt-and-money](www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Dyled-ac-arian/mortgage-problems-debt-and-money)

I gael gwybodaeth am brynu cartref, ewch i [www.moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home](www.moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home)

I gael cyngor ar dai, ewch i [england.shelter.org.uk/housing_advice](england.shelter.org.uk/housing_advice)

# 5 Cysylltu â ni



Gallwch gysylltu â ni i gael mwy o wybodaeth am SMI.



Mae’r swyddfa rydych yn cysylltu â hi yn dibynnu ar ba fudd-dal rydych yn ei gael neu rydych wedi gwneud cais i’w gael.

## Cysylltwch â’r Ganolfan Byd Gwaith os ydych yn cael, neu wedi gwneud cais am:

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.



Ffôn:

**0800 328 1744**

Ffôn testun:

**0800 169 0314**



Rhif Ffôn Saesneg:

**0800 169 0310**



Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 169 0310**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais, ewch i [www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/how-to-apply](www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/how-to-apply)

# Y Gwasanaeth Pensiwn

Adran Gwaith
a Phensiynau

Os ydych yn cael neu wedi gwneud cais am Gredyd Pensiwn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.



Ffôn:
**0800 731 0453**

Ffôn testun:
**0800 731 0456**



Rhif Ffôn Saesneg:
**0800 731 0469**

Ffôn testun Saesneg:
**0800 731 0464**



Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 731 0469**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais, ewch i www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/how-to-apply

# Credyd Cynhwysol

Os ydych yn cael, neu wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, cysylltwch â Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol.



Ffôn:
**0800 328 1744**

Ffôn testun:
**0800 328 1344**



Rhif Ffôn Saesneg:
**0800 328 5644**



Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 328 5644**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais, ewch i [www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/how-to-apply](http://www.gov.uk/support-for-mortgage-interest/how-to-apply)

Am fwy o wybodaeth ewch i [www.gov.uk/support-for-mortgage-interest](http://www.gov.uk/support-for-mortgage-interest)